CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunityCouncil.co.uk

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin hybrid y Cyngor a gynhaliwyd gan ddefnyddio llwyfan ffôn/fideo gynadledda Zoom yn ogystal ag wyneb yn wyneb yng Ngholeg Llysfasi nos Lun, 11 Gorffennaf 2022 am 7pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Moulsdale [Is-gadeirydd], David Baker, Eilir Jones, Osian Owen, Ceri Ranson , Shaun Williams, Huw Edwards, Steve Whipp (trwy Zoom), y Cynghorydd Sir Hugh Evans ac Alex Bebington, Cyngor Sir Ddinbych.

Dechreuodd y cyfarfod am 7:11pm, oherwydd problemau technegol gyda Zoom.

Ymddiheuriadau – derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Owen Evans.

RHAN 1
Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Eilir Jones yng nghyswllt Cofnod Rhif 890 (b).

887 Cofnodion – Penderfynwyd
Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2022 fel cofnodion cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Cymeradwywyd cofnodion y Cyfarfod Eithriadol a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2022 hefyd a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

888 Materion Cymunedol
888.1. Safle'r cyn gae chwarae a'r hen ysgol
(a) Cyfarfod y Grŵp Llywio 16/6/2022. **Penderfynwyd:** Mabwysiadu'r argymhelliad a nodwyd yn y nodiadau yng nghyswllt y cyfarfod, h.y.

1. Dylai'r Cyngor Cymuned barhau ei drafodaethau gyda Chyngor Sir Ddinbych i ystyried y cyfle potensial i gynnwys amwynder cymunedol os datblygir yr ysgol yn y dyfodol.
2. Dylai'r Cyngor Cymuned barhau gyda'r broses i gwblhau'r Trosglwyddo Ased Cymunedol gyda Chyngor Sir Ddinbych.
3. Dylai'r Cyngor Cymuned gyfarfod â swyddogion Cadwyn Clwyd a chytuno ar drefniant gwaith newydd a chadarnhau cyllideb y gronfa grant.
4. Dylai'r Cyngor Cymuned benderfynu ar nifer yr eitemau offer chwarae sefydlog sy'n ofynnol ar y safle a chomisiynu dyluniad arall i gynnwys hyn.
5. Dylai'r Cyngor Cymuned sefydlu Cymdeithas Reoli Cae Llinos yn unol â'r cyfansoddiad cytunedig.
6. Dylai'r Gymdeithas Reoli ddatblygu adroddiad ynghylch gofynion rheoli'r cae i'w gyflwyno i'r Cyngor Cymuned a chynnig cynllun gyda chyllideb, yn cynnwys ffynonellau cyllid allanol.
7. Dylai Cymdeithas Reoli Cae Llinos ystyried y budd o barhau'r bartneriaeth ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru.

Cytunwyd mai'r flaenoriaeth oedd sefydlu Cymdeithas Reoli. **Penderfynwyd:** cynhyrchu taflen i hysbysu aelodau'r gymuned am ddatblygu arfaethedig y cae chwarae a'r cyfarfod i'w gynnal ar y cae ddydd Sadwrn, 3 Medi 2022, lle byddai aelodau'r Gymdeithas Reoli yn cael eu dewis, yn cynnwys Cadeirydd, a fyddai'n llywio'r cyfarfod. **Gweithred:** y Cadeirydd i lunio taflen, y Cynghorydd Ranson i'w chyfieithu a'r Cynghorydd Moulsdale i drefnu argraffu a dosbarthu daflen.

Pwysleiswyd bod angen i'r Gymdeithas Reoli gael ei sefydlu gynted ag y bo modd gan fod angen gwario'r cyllid grant erbyn diwedd mis Mawrth 2023. Mae cynllun newydd yn cael ei lunio sy'n cynnwys ardal chwarae sefydlog, ond byddai gormod o newidiadau yn golygu y byddai'n rhaid ailgyflwyno'r cais am grant. Bydd Cadwyn Clwyd yn cydgysylltu â'r Gymdeithas Reoli i gael y grant.

Ymdriniwyd â'r pwyntiau a godwyd gan Cadwyn Clwyd, h.y.

a) Sicrhau cyllideb ar gyfer y costau llafur
b) Bod y Cyngor Cymuned yn cyflawni'r caffael er mwyn adfer y Treth ar Werth
c) Penodi Rheolwr Prosiect

a chytuno arnynt, a gofynnodd y Cynghorydd Baker bod amserlen yn cael ei llunio ar gyfer y prosiect. Cytunodd y Cynghorwyr y gellid gwneud rhai mân newidiadau.

Gweithred: Bydd y Cadeirydd yn cysylltu â'r pensaer tirlunio i drafod y newidiadau arfaethedig, yn cynnwys to solid ar y strwythur yn lle un canfas. Hefyd bydd yn cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i holi a ellir cyflenwi dŵr o'r ysgol a gwirio amodau'r grant i weld a ellir dechrau unrhyw waith cyn i'r dyfarniad grant gael ei gytuno.

(b) Diweddariad ynghylch Trosglwyddo Ased Cymunedol

Nodwyd bod Cyngor Sir Ddinbych yn tendro i weld a oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn cymryd adeilad yr ysgol. Cynhelir cyfarfod rhwng Cyngor Sir Ddinbych a'r Cyngor Cymuned ym mis Awst i fwrw ymlaen â'r materion hyn.

889 Gohebiaeth

a) Pecyn Cyllid a Llywodraethu – nodwyd bod y Cyngor Cymuned wedi bod yn rhan o'r cynllun peilot i lunio'r pecyn.
b) Ystyried adborth/adroddiadau o gynadleddau, hyfforddiant a chyfarfodydd – gweler uchod ynghylch Cadwyn Clwyd.

890 Cynllunio

a) Cais 20/2022/0526 Adeiladu adeilad addysgu newydd a gwaith cysylltiedig, Coleg Cambria, Llysfasi, Rhuthun
Sylwadau: Gweler y neges e-bost gan Steve ynghylch casglu dŵr glaw
Neges e-bost gan Eilir – mae arwynebedd y to yr un maint â'r adeilad sy'n bodoli eisoes.
Penderfynwyd: Bod y Cyngor yn hapus i gefnogi'r cais hwn.
b) Cais 20/2022/0542 Dymchwel yr ystafell haul ar ochr yr annedd ac adeiladu estyniad unllawr newydd. Adeiladu estyniad llawr cyntaf i flaen ac ochr yr annedd, yn cynnwys balcony Juliet. Addasiadau i'r porth sy'n

bodoli eisoes a gwaith cysylltiedig ym Merllyn, Llanfair Dyffryn Clwyd, Rhuthun. Cyflwynwyd y cais gan Mr Dyfan Eilir Jones.

Penderfynwyd: Bod y Cyngor yn hapus i gefnogi'r cais hwn.

c) Cais 20/2022/0129 Adeiladu estyniad i'r annedd, estyniad i'r cwrtil domestig a ffurfio trac mynediad er mwyn galluogi defnyddio mynediad amgen i gerbydau yn Y Ddôl, Llanfair DC, Rhuthun.

Penderfynwyd: Bod y Cyngor yn hapus i gefnogi'r cais hwn.

d) Cais 20/2022/0571 Ffurfio pantiau dal dŵr arwyneb, tirlunio a gwaith cysylltiedig, Genus Breeding Ltd, Llanrhydd, Rhuthun

Penderfynwyd: Bod y Cyngor yn hapus i gefnogi'r cais hwn.

e) Diweddariad ynghylch cais 20/2022/0426 dyddiedig 16/05/22 a gyflwynwyd gan Roberts Homes Ltd – Adeiladu 21 annedd yn cynnwys mynedfa, ffordd fewnol yn yr ystad, tirlunio a gwaith cysylltiedig – tir nesaf at Paradwys, Graigfechan.

Sylwadau - Mae llawer o wrthwynebiadau i'r cais hwn. Mae swyddogion Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych yn trafod gyda'r datblygwyr ar hyn o bryd.

891 Priffyrdd a'r Amgylchedd

a) Priffyrdd – ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan Gyngor Sir Ddinbych ynghylch unrhyw un o'r materion a godwyd.

b) Graigfechan – Nodwyd bod y ffordd wedi bod ar gau am bum niwrnod ond dim ond gwaith clytio a wnaed. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i bwysleisio bod angen iddynt gyfathrebu â darparwyr cludiant ysgol pan fo ffyrdd yn cael eu cau gan fod rhai plant wedi methu cyrraedd yr ysgol am dridiau gan nad oedd bysiau yn medru mynd y tu hwnt i'r gwaith ffordd.

c) Goryrru a sŵn – **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i ofyn i'r terfyn cyflymder y tu allan i Ysgol Pentrecelyn gael ei leihau i 20 milltir yr awr.

d) Atal Llifogydd

Roedd Alex Bebbington o Gyngor Sir Ddinbych yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Esboniodd fod yr Adran Priffyrdd wedi clirio'r draeniau wrth Eyarth yn ddiweddar ac y cynhaliwyd arolwg ac roedd popeth yn gweithio'n ddidrafferth. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn i Gyngor Sir Ddinbych garthu'r afon i gynorthwyo i wella'r sefyllfa. Bydd rhaid i'r Cyngor Sir ddod o hyd i arian er mwyn gwneud hyn. Esboniodd y Cynghorwyr fod y pryder llifogydd yn ymwneud â dŵr arwyneb yn ardal Gorsaf Eyarth. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi bod yn gweithio â Choleg Llysfasi er mwyn newid yr arferion rheoli'r tir ar y tir hwnnw, gan fod tir y caeau yn uwch na'r ffordd. Byddant yn sgwrsio â pherchnogion tir eraill hefyd ac yn cynnal profion suddfannau dŵr. Nid oes draeniad priffyrdd ar y ffordd hon – mae ar restr gwaith Cyngor Sir Ddinbych ond nid yw'n flaenoriaeth uchel. Gwnaiff Alex drafod y mater gyda Chyngor Sir Ddinbych ac adrodd yn ôl i ni. Pwysleisiodd Alex y dylid ei hysbysu'n uniongyrchol am unrhyw broblemau, gyda ffotograffau os yn bosibl (mae angen i'r rhain fod yn lluniau o'r broblem, nid lluniau hanesyddol). Gwnaiff y Cynghorydd Moulsdale siarad â'r trigolion perthnasol.

Ty'n Twyll – Bydd cynllun gwella'n digwydd ar ddiwedd yr haf gan fod yr eiddo wedi dioddef llifogydd dair gwaith mewn 10 mlynedd. Esboniwyd bod llifogydd mewn tai yn cael blaenoriaeth dros lifogydd ar ffordd.

Nodwyd bod angen cyllid er mwyn atgyweirio cwlfert yng Nghraigfechan.

Crybwyllwyd y gall y gyffordd ger Genus tuag at Bentrecoch ddioddef llifogydd o hyd at fetr o uchder, sy'n ei gwneud yn amhosibl defnydido'r ffordd. **Gweithred:** Y Cyngor Cymuned i gysylltu'n swyddogol â Chyngor Sir Ddinbych ynghylch hyn a darparu fideos ac ati i Alex fel tystiolaeth i lunio achos dros wella'r sefyllfa.
Esboniwyd nad yw cynllun atal llifogydd Graigfechan yn un blaenoriaeth digon uchel i'w gyllido gan Lywodraeth Cymru.
Nodwyd bod angen gwella'r draeniad ar hyd y ffordd o Graigfechan i Bentrecelyn.
Esboniwyd bod y gwlïau'n cael eu glanhau oddeutu bob dwy flynedd.
e) Biniau sbwriel – y Cyngor Cymuned yn parhau i aros i Gyngor Sir Ddinbych eu darparu.
f) Arwyddion pentref Llanfair ar yr A525 – mae'r Cyngor Cymuned yn parhau i aros am y rhain.
g) Gwrych wedi tyfu drosodd, Ffordd Graigfechan, Llanfair – mae Cyngor Sir Ddinbych yn trafod â'r perchnogion tir i unioni'r sefyllfa.
Gweithred: Y Clerc i gysylltu ag Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynghylch y ffordd wrth Tŷ Derwen mewn cyflwr gwael.
Diolchwyd i Alex Bebington am ddod i'r cyfarfod ac am ymdrin â'r materion ar ran Cyngor Sir Ddinbych.

892 Materion Ariannol

a) Ystyriwyd anfonebau i'w talu i AVOW, Zoom ac am gyfieithu a **Phenderfynwyd:** talu'r tair anfoneb.
b) Derbyniwyd cais am gymorth ariannol gan y Cylch Meithrin newydd ei ffurfio ym Mhentrecelyn. **Penderfynwyd:** gohirio'r cais tan y cyfarfod nesaf.

893 Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol [dechrau am 7pm]

a) Dyddiadau 2022/23 - [Coleg Cambria Llysfasi os yw Covid yn caniatáu], 19/09/22, 10/10/22, 14/11/22, 12/12/22, 09/01/23, 13/02/23, 13/03/23

RHAN 2 Eitemau Cyfrinachol – Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

Penderfynwyd: Penodi Sian E Thomas fel Clerc dros dro a thalu tâl salwch i'r Clerc parhaol.

Gorffennodd y cyfarfod am 20:50pm.

CADEIRYDD …… DYDDIAD ……